# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 6

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

## PENNOD 2

GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL

*Ystyriaeth ragarweiniol i honiadau etc.*

### 119 Ystyriaeth ragarweiniol

(1) Rhaid i'r person sy'n rhoi ystyriaeth ragarweiniol i fater a atgyfeirir gan GCC atgyfeirio'r mater hwnnw i ymchwilio iddo o dan adran 125 oni bai—

(a) bod y person yn dyfarnu nad yw'r mater yn gymwys i'w atgyfeirio ymlaen o dan adran 120, neu

(b) ei bod yn ofynnol i'r person drwy adran 121 atgyfeirio'r mater yn uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer.

(2) Caiff y person sy'n rhoi ystyriaeth ragarweiniol i fater atgyfeirio'r mater, ar unrhyw adeg, i banel gorchmynion interim (yn ychwanegol at wneud atgyfeiriad neu ddyfarniad o dan is-adran (1)).

(3) Rhaid i GCC drwy reolau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyriaeth ragarweiniol a gaiff, yn benodol, ddarparu i'r canlynol gynnal ystyriaeth ragarweiniol—

(a) un neu ragor o bersonau a benodir at y diben hwnnw, ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys tâl) y mae GCC yn penderfynu arnynt;

(b) un neu ragor o aelodau o staff GCC.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 119. (See end of Document for details)*

(4) Ond ni chaiff rheolau a wneir o dan is-adran (3) ddarparu i'r canlynol gynnal ystyriaeth ragarweiniol—
- (a) person sy'n aelod o—
  - (i) GCC,
  - (ii) **[**[F1]Gwaith Cymdeithasol Lloegr**]** ,
  - (iii) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban, neu
  - (iv) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon;
- (b) person sy'n aelod o banel addasrwydd i ymarfer;
- (c) person sy'n aelod o banel gorchmynion interim;
- (d) person rhagnodedig.

(5) Rhaid i GCC wneud unrhyw drefniadau sy'n briodol yn ei farn ef i hwyluso cydweithredu rhwng—
- (a) person sydd wedi gwneud honiad bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, a
- (b) y person sy'n rhoi ystyriaeth ragarweiniol i'r honiad.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 119(4)(a)(ii) wedi eu hamnewid (2.12.2019) gan Children and Social Work Act 2017 (c. 16), a. 70(2), **Atod. 5 para. 42(a)**; O.S. 2019/1436, rhl. 2(s)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 119 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 119 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(e)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 119.